

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gwasanaeth Cynghori ar
Feichiogrwydd
(BPAS), Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 28 Mehefin 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wasanaeth Cyngori ar Feichiogrwydd (BPAS), Caerdydd ar 28 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, a arweiniodd yr arolygiad, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn BPAS Caerdydd yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd y staff yn sensitif a thosturiol wrth siarad â chleifion a oedd yn helpu i greu amgylchedd gofal digynnwrf. Nododd pob claf a oedd wedi cwblhau holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn. Gallai'r cleifion roi adborth ar eu profiadau i'r clinig mewn sawl ffordd. Rhoddwyd digon o wybodaeth i'r cleifion cyn eu triniaethau ac ar eu hôl.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Byddai ramp cludadwy yn gwella hygyrchedd yr adeilad
- Dylai'r gwasanaeth ddangos canlyniadau adborth gan gleifion yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu darllen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cydsyniad priodol yn cael ei gasglu gan bob claf, gan gynnwys y rhai a oedd o dan 18, cyn darparu triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau perthnasol ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i amddiffyn iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn y clinig. Roedd yn amlwg bod mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith, ac roedd y clinig i'w weld yn lân ac yn daclus. Roedd gweithdrefnau cadarn ar gael er mwyn helpu i sicrhau bod y staff yn diogelu'r cleifion yn briodol, a oedd yn bwysig iawn oherwydd natur y gwasanaethau a gynigir yn y clinig. Gwelsom fod y feddyginiaeth yn cael ei rheoli, ei rhoi a'i storio'n ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym yn cael eu cynnal i safon dda iawn ac roeddent yn helpu i ddangos tystiolaeth bod gofal o safon dda yn cael ei ddarparu i gleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn y clinig ar adeg ein harolygiad.

Roedd prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o'r staff fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ac i sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth cyffredinol yn uchel. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Rhoddodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiadur adborth cadarnhaol ar weithio yn yr ysbyty. Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd yr adborth ar bob agwedd ar y gofal yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Roedd pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac roeddent yn garedig iawn wrth edrych ar fy ôl. Roedd yr awyrgylch yn hyfryd a gwnaeth fy helpu i ymlacio.”

“Staff hyfryd iawn. Roeddent yn sylwgar a gwnaethant fy nhrin â gofal. Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy mharchu ac roeddent yn rhoi tawelwch meddwl i mi drwy gydol fy amser yno.”

“Roedd y staff yn dosturiol ac yn deall a gwnaethant i mi deimlo'n gyfforddus drwy gydol fy nhriniaeth.”

Diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth amrywiol am hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion yn yr ardal aros ar ffurf posteri, taflenni a chardiau post. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau penodol a ddarperir gan y gwasanaeth yn ogystal â gwybodaeth arall am iechyd, megis dulliau atal cenhedlu, canser y fron, cwnsela a gwasanaethau cam-drin domestig.

Urddas a pharch

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn trin y cleifion gyda pharch a thosturi a oedd yn helpu i greu amgylchedd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Nododd un claf:

“Roedd pawb yn barod iawn i helpu, ac roeddwn yn teimlo'n ddiogel iawn.”

Roedd sawl ystafell ar gael i'r staff gynnal ymgynghoriadau a thrafodaethau cyfrinachol â'r cleifion. Gwelsom fod y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr apwyntiadau hyn er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion.

Roedd ystafell adfer ar wahân wedi'i lleoli ger y theatr llawfeddygol er mwyn i'r cleifion eistedd yno yn dilyn eu triniaethau. Roedd llenni preifatrwydd ar gael ym mhob ardal yn yr ystafell er mwyn helpu i amddiffyn urddas y cleifion. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod mesurau priodol wedi'u cymryd i amddiffyn eu preifatrwydd yn y lleoliad. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r clinig wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, awgrymodd un claf y canlynol:

“Ystafelloedd unigol o bosibl.”

Gwnaethom nodi nad oedd yr ystafell adfer yn cael ei defnyddio at y diben hwn yn unig; roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn yr ystafell cyn i'r cleifion gyrraedd, ac roedd cyfarpar a chabinetau yn cael eu storio yn yr ystafell hefyd a oedd yn rhoi'r ymdeimlad o swyddfa ac nid o amgylchedd gofal. Dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth hwn ac ystyried a ellir gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r trefniadau ôl-ofal sydd ar waith ar gyfer y cleifion yn y clinig.

Cyfathrebu'n effeithiol

Mae'r cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb lle y mae'r staff yn cynnal asesiad meddygol ac yn trafod opsiynau a threfniadau triniaeth ar gyfer eu triniaeth yn y clinig. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn ymgymryd â thriniaeth. Hefyd, roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a'r risgiau a'r buddion cysylltiedig cyn y driniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gan y gwasanaeth ddatganiad ysgrifenedig o ddiben a oedd yn bodloni gofynion y rheoliadau. Roedd amrywiaeth o daflenni i gleifion ar gael yn hytrach na chanllaw i gleifion. Roedd gan y gwasanaeth wefan gynhwysfawr hefyd yn rhoi manylion am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig ac a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallant gael gafael ar adroddiad arolygu diweddaraf AGIC.

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael yn Gymraeg. Gan fod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, gwnaethom atgoffa'r gwasanaeth i sicrhau y gellir darparu pob darn o wybodaeth yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill pan fo angen. Roedd y clinig yn gallu cael gafael ar ddehonglydd iaith arwyddion a llyfrynau braille a oedd yn ei helpu i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn casglu cydsyniad y cleifion yn ystod amrywiol gamau cyn iddynt gael triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol ac ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion gofal iechyd pump claf a gwelsom dystiolaeth bod cydsyniad dilys wedi'i gasglu. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r materion cyfreithiol a moesegol sy'n gysylltiedig â'r triniaethau a gynigir gan y clinig. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Mae'r clinig wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu triniaeth a chynghor ar derfynu beichiogrwydd i gleifion 13 oed a throsodd. Dywedwyd wrthym fod angen cydsyniad oedolyn priodol, megis gwarcheidwad cyfreithiol, nyrs ysgol neu weithiwr cymdeithasol, cyn ymgymryd â thriniaeth ar gleifion o dan 18.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom fod cynlluniau triniaeth priodol yn cael eu datblygu gan y staff clinigol yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol â'r cleifion. Roedd y cofnodion gofal iechyd a welsom yn gyfredol ac yn cynnwys trosolwg cynhwysfawr o'r driniaeth a ddarparwyd. Hefyd, gwelsom fod y rhesymeg dros yr opsiynau triniaeth wedi'i phennu gan ddefnyddio canllawiau gorau seiliedig ar dystiolaeth. Cytunodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn ei ddymuno wrth wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gwelsom fod y cleifion yn cael canllawiau ôl-ofal digonol yn dilyn eu triniaeth. Roedd yn bosibl i'r cleifion ffonio i drefnu apwyntiad ar gyfer cael sesiynau cwnsela rhad ac am ddim ar ôl eu triniaeth pe byddent am eu cael. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal heintiau a chynorthwyo gwella, a chanllawiau clir ar beth i'w wneud ac hefyd, â phwy i gysylltu pe byddai haint neu argyfwng.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r clinig wedi'i leoli ar y stryd fawr ac felly ni allai pobl ag anawsterau symudedd gael mynediad iddo yn rhwydd. Gellir ond parcio yn un o'r meysydd parcio aml-lawr gerllaw. At hynny, mae'r mynediad i'r adeilad yn gyfyngedig gan fod dau ris concriid mawr yn arwain at y fynedfa. Dywedwyd wrthym nad oedd ramp cludadwy ar gael i bobl sydd angen cymorth ar y grisiau.

Dylai'r gwasanaeth ystyried yr opsiwn o gael ramp cludadwy er mwyn helpu'r cleifion y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gael mynediad i'r adeilad.

Ar ôl cyrraedd y tu mewn i'r adeilad, roedd lifft ar gael i gludo'r cleifion yn uniongyrchol i'r clinig a oedd ar y llawr cyntaf. Roedd pob rhan o'r clinig ei hun yn

ymddangos yn hygyrch ac yn gallu bodloni unrhyw gymhorthion symudedd. Gwelsom fod arwyddion addas yn cael eu harddangos i gyfeirio'r cleifion at y rhannau gwahanol o'r clinig.

Mae'r wybodaeth sydd i'w gweld ar wefan BPAS yn nodi hawliau'r cleifion o ran derbyn y gwasanaethau a gynigir yn y clinig yn glir. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Ni nododd unrhyw un o'r cleifion eu bod wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael cyfleoedd amrywiol i roi adborth ar eu profiadau yn y clinig. Gwahoddir y cleifion i gwblhau arolwg yn dilyn eu triniaeth dros e-bost. Roedd ffurflenni adborth hefyd ar gael yn y clinig pe na byddai'r cleifion yn dymuno i'r clinig gysylltu â nhw dros e-bost.

Yn ogystal â chyflwyno holiaduron AGIC i'r cleifion, gwnaethom hefyd gyflwyno holiaduron AGIC i'r staff cyn yr arolygiad er mwyn casglu eu barn ar weithio yn y clinig. Cytunodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur bod y lleoliad yn casglu adborth ar brofiad y cleifion a'u bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth a gafwyd, a bod yr adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn y sefydliad.

Gwelsom nad oedd canlyniadau adborth y cleifion yn cael eu harddangos yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu gweld.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth arddangos canlyniadau adborth y cleifion yn yr ardal aros er mwyn dangos i'r cleifion bod y clinig wedi ystyried eu barn ac wedi cymryd camau priodol lle bo angen.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Cawsom sicrwydd fod prosesau addas ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty.

Roedd archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cynnal bob dwy flynedd gan y staff mewnol. Hefyd, roedd archwiliadau iechyd a diogelwch blyneddol yn cael eu cynnal gan y tîm iechyd a diogelwch canolog yn BPAS er mwyn monitro cydymffurfiaeth. Roedd y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu bob blwyddyn ac roedd arwyddion clir i'r allanfeydd tân. Cynhaliwyd asesiad risg tân o'r clinig yn ddiweddar a gwelsom dystiolaeth fod adroddiad ar gyflwr gosodiadau trydanol wedi'i lunio yn 2021. Roedd asesiadau risg cyffredinol eraill, megis Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac anafiadau wedi'u hachosi gan offer miniog a nodwyddau ar waith hefyd.

Roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd mewn cyflwr da. Gwelsom fod pob rhan o'r clinig yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Siaradodd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur, ac uwch-aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad, am yr heriau a wynebwyd gan y gwasanaeth yn sgil lleoliad y clinig. Mae'n debyg y gallai lleoliad arall, i ffwrdd o'r stryd fawr brysur gyda gwell mynediad a mwy o ofod, wella amgylchedd ac ansawdd y profiad y gellid ei gynnig i'r cleifion o bosibl, yn ogystal â bod o fudd i'r staff sy'n gweithio yno.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn y clinig. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Y nyrs arweiniol oedd yn gyfrifol am atal a rheoli heintiau yn y clinig. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar y pwnc hwn. Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus yr olwg. Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y clinig; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod yr amgylchedd yn lân.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael. Roedd rotas glanhau i'w gweld yn y clinig ynghyd â chanlyniadau archwiliad rheoli heintiau a gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

Roedd cyfarpar a rennir a dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu storio a'u diheintio'n briodol. Gwelsom fod sticeri gwyrdd yn cael eu defnyddio i hysbysu'r staff fod y cyfarpar wedi cael ei lanhau ac felly yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y theatr llawfeddygol yn cael ei glanhau rhwng pob claf ac yn cael ei glanhau'n drylwyr bob bore.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod prosesau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod staff y clinig yn diogelu'r cleifion yn briodol. Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Gallai'r staff gael gafael ar fanylion cyswllt ar gyfer timau diogelu'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn rhwydd mewn ffolder diogelu a gaiff ei gadw yn y clinig. Gwelsom dystiolaeth fod atgyfeiriadau priodol wedi'u gwneud gan staff y clinig at asiantaethau diogelu allanol.

Caiff unrhyw bryderon diogelu am gleifion sy'n mynychu'r clinig ar y diwrnod eu codi a'u trafod bob bore yn ystod y cyfarfodydd staff dyddiol. Dywedwyd wrthym fod pwyllgor diogelu yn cael ei gynnal bob chwarter i'r staff drafod unrhyw faterion diogelu cyffredinol neu ddiweddariadau i bolisïau perthnasol.

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel a oedd yn briodol i'w rolau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd digon o gyfarpar meddygol priodol ar gael yn y clinig i ddiwallu anghenion y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y cyfarpar hwn yn cael ei brofi/calibradu yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn rhoi mesuriadau cywir.

Roedd cyfarpar a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (llewygu) ar gael ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant dadebru addas.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cawsom sicrwydd fod polisïau a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y clinig yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelsom y staff yn cydweithio'n dda drwy gydol yr arolygiad. Roedd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion ac ar ymdrechion y gwasanaeth i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r canllawiau clinigol perthnasol ar gyfer y gwasanaethau a gynigir gan y clinig. Roedd cofnodion y cleifion a welsom, a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw i safon dda iawn, yn cynnwys tystiolaeth dda o'r gofal a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom y canlynol:

- Roedd cofnodion y cleifion yn glir, yn gywir ac yn hawdd eu deall
- Roedd y staff yn asesu anghenion y cleifion yn briodol drwy gynnal asesiadau risg amrywiol
- Roedd cofnodion y cleifion yn adlewyrchu unrhyw risgiau a nodwyd a'r camau gweithredu gofynnol
- Roedd tystiolaeth glir i ddangos unrhyw feddyginiaeth a oedd wedi'i rhagnodi a'i rhoi i'r cleifion
- Roedd cofnodion y cleifion yn nodi'n glir pan fu i hebryngwyr fynychu apwyntiadau neu driniaethau gyda chleifion
- Roedd nodiadau cynhwysfawr am hanes meddygol pob claf yn cael eu cwblhau ac roedd y system rheoli cofnodion electronig yn hysbysu'r staff am unrhyw alergeddau posibl i gyffuriau.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel. Roedd y polisiâu perthnasol yn gyfredol ac ar gael i'r staff yn electronig. Gwelwyd drwy gydol yr arolygiad fod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a bod tymheredd yr oergell yn cael ei wirio bob dydd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n unol â'r tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr. Roedd y staff yn gallu cael gafael ar fferylllydd BPAS corfforaethol os byddai angen cyngor arnynt. Roedd y nodiadau meddyginiaeth a welsom yng nghofnodion y cleifion yn glir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn helpu i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn ddiogel.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Cawsom sicrwydd fod systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig yn rheolaidd. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Roedd gweithgareddau archwilio rheolaidd yn cael eu cwblhau gan y staff
- Roedd dangosfwrdd cydymffurfiaeth ac ansawdd gweithredol corfforaethol yn cael ei gynnal a oedd yn helpu uwch-reolwyr i nodi meysydd i'w gwella
- Mae aelod corfforaethol o staff BPAS wedi ymweld â'r gwasanaeth bob chwe mis i adolygu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig yn unol â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Cynhaliodd aelodau o staff o glinigau BPAS eraill ledled Cymru a Lloegr archwiliadau adolygu gan gymheiriaid er mwyn helpu i nodi a rhannu gwersi a ddysgwyd o safleoedd.

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid perthnasol a byrddau iechyd eraill er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Cawsom

wybod am enghreifftiau lle roedd BPAS wedi rhannu ei brofiadau o arferion clinigol da a oedd ar waith yn y clinig a gafodd eu mabwysiadu, yn y pen draw, gan fyrddau iechyd ledled Cymru. Gwnaethom nodi hyn fel menter gadarnhaol tuag at wella ansawdd y gofal a ddarperir i bob claf sydd angen triniaeth terfynu beichiogrwydd yng Nghymru.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf ffeiliau papur ac ar ffurf electronig. Roedd y ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel ar y safle ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Rhoesom holiaduron AGIC i'r staff yn ystod yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Derbyniwyd cyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ym mhob maes, gyda phob ymatebydd yn argymhell y clinig fel lle i weithio ynddo ac yn cytuno y byddent yn fodlon ar y safon o ofal a ddarperir i'w ffrindiau neu aelodau o'u teulu. Mae rhai o ganlyniadau'r holiadur yn ymddangos yn yr adroddiad.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yn gadarnhaol bod y staff, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Nodwyd gennym fod y tîm yn ymroddedig ac yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth ofalu am y cleifion.

Cawsom sicrwydd bod systemau a phrosesau llywodraethu priodol ar waith yn y clinig er mwyn helpu i nodi risgiau a gwelliannau i'r gwasanaeth. Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda a bod y tîm yng Nghaerdydd i'w weld yn cael ei gefnogi'n dda gan ei gydweithwyr BPAS corfforaethol. Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn weladwy, bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a bod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Roedd sgrymiau diogelwch yn cael eu cynnal cyn pob rhestr llawdriniaeth. Roedd sgrym diogelwch yn cael ei gynnal ar fore'r arolygiad a gwelsom ei fod yn effeithiol ac yn cynnwys llawer o wybodaeth. Dywedwyd wrthym y caiff sgrymiau diogelwch eu cynnal gyda'r staff ar ddiwedd pob rhestr llawdriniaeth hefyd er mwyn adolygu'r diwrnod a helpu i nodi unrhyw faterion neu feysydd i'w gwella.

Roedd ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a gwelsom eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys dyddiadau adolygu priodol ar gyfer y dyfodol. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i bolisiau neu weithdrefnau drwy adroddiadau Sefyllfa, Cefndir, Asesu, Argymell (SBAR yn Saesneg).

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd posteri i'w gweld ym mhob rhan o'r clinig a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallant wneud cwyn neu godi pryder pe baent yn dymuno gwneud hynny. Gwelsom fod manylion cyswllt ar gyfer AGIC hefyd i'w gweld pe byddai cleifion yn awyddus i gysylltu â ni yn uniongyrchol. Roedd nifer o daflenni 'adborth a pholisi cwynion' hefyd ar gael yn yr ardal aros. Roedd y daflen yn nodi'r amserlenni ar

gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn glir. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys yn y taflenni hyn. Gwnaethom drafod hyn gyda'r gwasanaeth a aeth ati i wneud trefniadau i ychwanegu manylion cyswllt AGIC ar y taflenni drwy osod sticer arnynt.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau yn y clinig. Roedd pob aelod o'r staff yn gallu rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy system electronig Datix. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y prosesau sydd ar waith i ymchwilio i ddigwyddiadau a nodi a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd. Hefyd, caiff digwyddiadau a themâu eu hadolygu a'u trafod yn rheolaidd â phob rheolwr triniaethau BPAS yn yr ardal ac yn ystod cyfarfodydd gweithredol bob chwarter gyda thîm uwch-reolwyr BPAS.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y gwasanaeth yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac y byddai unrhyw aelod o'r staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn cael ei drin yn deg.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn y clinig ar adeg ein harolygiad. Dywedwyd wrthym fod ymarferwyr nyrsio ychwanegol yn cael eu neilltuo ar gyfer yr ardal i ddarparu cymorth yn y clinig pe byddai unrhyw absenoldebau staff. Mae'n rhaid i'r ymarferwyr nyrsio gynnal pasbort clinigol sy'n dangos tystiolaeth i reolwyr triniaethau ym mhob clinig bod eu sgiliau yn gyfredol.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i'r rheolwr cofrestredig fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Gwelsom ddata a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol fel sy'n ofynnol iddynt ei wneud yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'w rolau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym mewn ymateb i'r holiaduron:

“Mae hyfforddiant bob amser ar gael ac rydym yn cael ein hannog i gwblhau cyrsiau ychwanegol.”

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael sesiynau goruchwyllo clinigol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyda nyrs arwain o glinig BPAS arall yn yr ardal. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o ran eu perfformiad yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr hyfforddiant, y dysgu a'r datblygu y maent wedi ymgymryd â nhw yn BPAS wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, ac wedi eu helpu i roi gwell profiad i'r cleifion. Gwnaethom ofyn i'r staff yn yr holiaduron os byddai unrhyw hyfforddiant arall yn ddefnyddiol ar gyfer eu rolau. Cafwyd yr ymatebion canlynol:

“Hyfforddiant ar reoli gwrthdaro, er mwyn ymdrin ag ymddygiad ymosodol cleifion.”

“Llwybr hyfforddiant safonedig ar gyfer y cynorthwyydd gofal iechyd.”
Dylai'r gwasanaeth fyfyrion ar yr adborth hwn a thrafod y cyfleoedd hyfforddiant hyn â'r staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â rheoliadau a safonau i sicrhau bod trefniadau recriwtio yn dilyn proses agored a theg.

Cyn iddynt gael eu cyflogi, mae'n ofynnol i ddarparu aelodau o'r staff ddarparu dau eirdd a thystiolaeth o gymwysterau proffesiynol. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal hefyd, a'u hadnewyddu bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y clinig.

Mae staff parhaol newydd a gaiff eu penodi yn ymgymryd â chyfnod sefydlu er mwyn dysgu am y clinig, darllen ei bolisiau a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Caiff y staff eu hasesu gan yr uwch-reolwyr ar ôl tri mis er mwyn sicrhau eu bod wedi dangos eu bod yn gymwys i wneud y gwaith yn ymarferol.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y gwasanaeth yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant, eu bod yn cael cynnig cefnogaeth lawn wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol a chadarnhawyd eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt fel gweithiwr yn BPAS.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: BPAS Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: BPAS Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 28 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r gwasanaeth ystyried yr opsiwn o gael ramp cludadwy er mwyn helpu'r cleifion y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gael mynediad i'r adeilad.	Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	Rheolwr yr uned drin i ymgysylltu â'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, Risg a Chaffael ynghyd â'r Landlord i drafod hyn. Pennu a fyddai ramp cludadwy yn ymarferol ac os byddai'r staff yn gallu ei symud o le i le a'i storio pan fo angen. Mae angen adnewyddu'r brydles ar gyfer y safle yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, ac mae'r Uwch-dîm Arwain yn ystyried cael safle newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn a bydd asesiad risg ar gyfer gosod ramp	Rheolwr yr Uned Drin - Viv Rose Rheolwr Ansawdd a Gweithrediadau - Kerrie Dawson	Gorffennaf 2023

		yn cael ei ychwanegu at y gofynion mynediad.		
Dylai'r gwasanaeth ddangos canlyniadau adborth gan gleifion yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu darllen.	Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth	Rheolwr yr Uned Drin i osod bwrdd adborth gan gleifion yn y brif ystafell aros a fydd yn cynnwys sgorau boddhad cleifion a'r camau gweithredu a gymerwyd yn sgil yr adborth.	Rheolwr yr Uned Drin - Viv Rose	Gorffennaf 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **Viv Rose**

Teitl swydd: **Rheolwr yr Uned Drin**

Dyddiad: **30 Mai 2023**